# Cofnodion

## Pwyllgor Safonau

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022 |
| Amser: | 5.30 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr A Mitchell (Cadeirydd) and P Cockeram |

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Y Cynghorydd Fouweather.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Iau 14 Ebrill 2022 yn gofnod gwir a chywir.

4 **Materion yn codi**

Dim materion sy’n codi.

5 **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Doedd gan y Cadeirydd ddim cyhoeddiadau i'w gwneud.

6 **Adroddiad ar y Flaenraglen Waith**

Croesawodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau aelodau'r pwyllgor i'r cyfarfod safonau cyntaf yn dilyn yr etholiad, a chyflwynodd y cynghorydd Cockeram i'r [pwyllgor] yn ogystal â diolch i'r cynghorydd Davies am ei gyfranogiad parhaus fel cynrychiolydd y cyngor cymuned. Nodwyd aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn adran gyntaf yr adroddiad.

Amlygodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor yn nodi’r rhaglen waith ddrafft ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod bob blwyddyn. Fodd bynnag, mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu beth sy'n bwysig i'w codi a phryd i'w codi.

Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod dwy Eitem i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, a'r cyntaf oedd y gofynion newydd i'r pwyllgor gyfarfod ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol o fewn 6 mis i'r etholiad i adolygu cydymffurfiaeth â'u dyletswydd newydd i hyrwyddo moeseg o fewn eu grwpiau gwleidyddol.

Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod hyn wedi'i wneud yn wirfoddol ers blynyddoedd, ond mae bellach yn ddyletswydd ofynnol. Yr ail eitem oedd ystyried eu hadroddiad blynyddol i'r Cyngor, oedd bellach yn ofyniad statudol ac roedd rhaid anfon copïau at yr Ombwdsmon

a'r cynghorau cymuned. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau bod hyblygrwydd o ran sut y gellid gwneud hyn – yn anffurfiol neu mewn lleoliad ffurfiol – a gallai gynnwys cwrdd ag arweinwyr unigol neu eu cyfarfod fel rhan o grŵp, yn ogystal â chael yr arweinwyr i greu dogfen ysgrifenedig. Nodwyd hefyd bod llawlyfr llywodraethu yn ddyledus ym mis Mai ond roedd dal disgwyl am y fersiwn derfynol gan Lywodraeth Cymru.

O ran yr adroddiadau, nodwyd gan Bennaeth y Gyfraith a Safonau bod pwyllgorau eraill yng Nghymru yn gofyn i'r arweinwyr am adroddiad ysgrifenedig. Yna aeth Pennaeth y Gyfraith a Safonau ymlaen i ddatgan nifer y grwpiau gwleidyddol a'u cyfansoddiad megis y gofyniad am ddau aelod i ffurfio grŵp.

Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau am eglurhad gan y pwyllgor ar sut y byddai'n dymuno cyflawni'r gofyniad hwn?

• Gofynnodd y Cynghorydd Cockeram ynglŷn â'r ffaith bod 4 aelod annibynnol yn Llyswyry yn hytrach na'r tri a nodwyd gan Bennaeth y Gyfraith a Safonau pan roddwyd dadansoddiad o'r grwpiau gwleidyddol. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd a allai proses ffurfiol ac anffurfiol ddigwydd gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol. Yn olaf gofynnwyd pam mai dim ond cwynion yr oedd y pwyllgor yn delio â nhw ac nid canmoliaeth sy'n cael ei rhoi i'r Cyngor.

Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai dim ond tri aelod annibynnol o'r pedwar oedd wedi grwpio gyda'i gilydd. Aeth Pennaeth y Gyfraith a Safonau hefyd ymlaen i ddweud bod y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am ganmoliaethau a chwynion o dan reoliadau newydd

• Cytunodd G. Nurton hefyd gyda chyfarfod ffurfiol gyda'r arweinwyr yn ogystal ag adroddiad ysgrifenedig.

• Cytunodd R. Morgan hefyd â'r Cynghorydd Cockeram gan ofyn a allai cyfarfod cyntaf yr arweinwyr gwleidyddol gael ei ddefnyddio i egluro eu meddyliau a sicrhau eu bod yn deall yn iawn beth oedden nhw eisiau.

• Cytunodd y cadeirydd hefyd gyda'r teimlad uchod gan ofyn a allai'r cyfarfod gael ei gynnal cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

• Gofynnodd G. Nurton hefyd a oedd modd cysylltu â grwpiau gwleidyddol un aelod hefyd i'w hysbysu bod y pwyllgor yno pe bai angen cymorth arnynt.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y byddai cynnwys yr aelodau sengl hyn mewn cyfarfod ffurfiol yn annhebygol gan nad oedd dyletswydd arnynt, fodd bynnag mae'r arwydd da o ysgrifennu atynt yn rhywbeth y gellid ei wneud.

Nododd y Cadeirydd y bydd hyn yn cael ei drefnu gyda'r tîm llywodraethu yn ogystal â'r Gyfraith a Safonau fel bod modd drafftio ymateb priodol. Amlygodd y cadeirydd yr ystod o ddyddiadau i weithio tuag atynt yn y flwyddyn sydd i ddod, ac i ddefnyddio'r dyddiadau o fewn y flaenraglen waith fel cerrig milltir allweddol yn ogystal â delio â materion wrth iddynt godi.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau bod adolygiad o bolisi chwythu'r chwiban y Cyngor wedi ei gynnwys yn anghywir o fewn blaenraglen waith Craffu ac y byddai hyn yn dod at y pwyllgor safonau. Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau hefyd am eglurhad o'r hyn yr hoffai'r pwyllgor ei gael o'r adroddiad ysgrifenedig ynghylch arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn ogystal â thynnu sylw at a oeddent am addasu'r enghreifftiau gan gynghorau eraill ac a fyddai'n well ganddynt gael yr adroddiad cyn neu ar ôl y cyfarfod gyda'r arweinwyr grŵp.

• Fe wnaeth y cadeirydd argymell cael yr adroddiad ar ôl y cyfarfod cyntaf gydag arweinwyr grŵp.

• Cytunodd R. Morgan â'r cadeirydd y byddai'n well siarad â nhw yn gyntaf.

Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wedyn a hoffen nhw gwrdd â'r aelodau yn unigol, boed ar yr un diwrnod mewn slotiau amser gwahanol neu ar ddiwrnodau gwahanol, neu a fyddai un cyfarfod grŵp gyda'r grwpiau i gyd yn fwy addas.
Roedd yn well gan y cadeirydd gyfarfod â phawb gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw amwysedd pe bai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar wahân. Cytunodd sawl aelod arall o'r pwyllgor gyda theimlad y cadeirydd

• Gofynnodd y cadeirydd a oedd Cynghorwyr Cymuned hefyd yn cael yr un neges o ran moeseg a safon. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau nad oedd angen iddynt, ond bod adolygiad o foeseg y cyngor cymuned yn digwydd. Mae gwybodaeth a ddarperir gan glerciaid y cyngor cymuned yn cefnogi hyn gan fod gan y cynghorau cymuned amrywiaeth o systemau wedi'u sefydlu hefyd.

Roedd Pennaeth y Gyfraith a Safonau wedi cyflwyno cyflwyniad ar safonau i'r cynghorwyr cymuned hynny sy'n mynychu cyfarfod olaf y grŵp Cyswllt, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth o'r cyflwyniad i aelodau na allai fynychu
Nodwyd hefyd gan Bennaeth y Gyfraith a Safonau y cafodd y cyflwyniad adborth cadarnhaol yn ogystal â datgan bod llawer o'r cynghorau cymuned yn tanysgrifio i "Un Llais Cymru".

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r eitem allweddol nesaf yn digwydd ym mis Rhagfyr, sef yr adolygiad hyfforddiant. Gofynnodd a ellid ychwanegu cyfarfod a oedd hefyd yn cynnwys y cynghorau cymuned. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau bod hyn yn annhebygol oherwydd cyfanswm maint aelodau'r cynghorau cymuned, ond bod y wybodaeth fel arfer yn cael ei dosbarthu gan y Clerciaid.

Byddai modd darparu hyfforddiant ychwanegol ond gan eu bod yn tanysgrifio i "Un Llais Cymru" mae'r cynghorau cymuned yn debygol o wybod beth i'w wneud. Dywedwyd fodd bynnag erbyn mis Rhagfyr y dylai fod mwy o wybodaeth bendant am hyn.

Yn ogystal â chyfarfod hyfforddiant hybrid a ddigwyddodd, ac anfonwyd gwybodaeth o'r hyfforddiant at y rhai nad oedd yn bresennol. Soniodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau bod angen llawer o hyfforddiant newydd ar y Cyngor yn dilyn yr etholiad felly rhoddodd wybod i'r cynghorau cymuned y byddai hyfforddiant ar eu cyfer yn digwydd ddiwedd Rhagfyr.

Hoffai'r Cadeirydd i'r cyfarfod ddigwydd yn hanner cyntaf mis Rhagfyr.

## 7 Cwynion

Rhoddodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau ddiweddariad cyffredinol ar nifer y cwynion gan dynnu sylw at ddau achos penodol o'r cyfarfod blaenorol. Roedd un o'r rhain wedi cael ei datrys, ac roedd ymchwiliad yn parhau i'r llall. Nodwyd dwy gŵyn adran 69 pellach yn yr adroddiad. Ni chafodd yr un ohonynt eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon.

Roedd yr adroddiad yn yr agenda yn rhoi crynodeb o'r cwynion. Roedd y gŵyn gyntaf yn ymwneud â chyn-aelod o'r cyngor cymuned. Ym marn yr Ombwdsmon nid oedd ymchwilio i'r aelod er budd y cyhoedd gan ei fod wedi ymddiswyddo ac ni chanfuwyd digon o dystiolaeth i ddelio â'r gŵyn.

Roedd yr ail gŵyn hefyd yn cynnwys cyn-aelod o'r cyngor cymuned ac yn ymwneud ag ymosodiad corfforol o fewn ward yr aelod, a oedd wedi cael ei gyfeirio at yr heddlu. Roedd yr Ombwdsmon yn cytuno bod y ffrwgwd wedi digwydd o fewn bywyd preifat yr aelod ac nid oedd yn gysylltiedig â'i swyddfa na'r Cyngor.

• Gofynnodd y Cynghorydd Davies ynglŷn â chwyn o gyfarfod blaenorol, ac fe dynnodd sylw at ei siom na weithredodd yr Ombwdsmon ar y gŵyn gan ei fod yn teimlo bod y niwed a achoswyd i'r Clerc sef yr achwynydd yn sylweddol.
Gofynnodd y Cynghorydd Davies a oedd modd cymryd camau ar hyn.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai'r Ombwdsmon sydd â'r gair olaf yn yr hyn y dylen nhw ei ystyried a'i ddwyn i'r pwyllgor, ac yna cyfeiriodd at y broses o sut mae'r ombwdsmon yn penderfynu beth sy'n ddigon sylweddol i'w gyfeirio.

• Fe wnaeth y Cynghorydd Davies ei gweld yn rhyfedd nad oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad yr Ombwdsmon.

- Cytunodd y Cynghorydd Cockeram hefyd, ac amlygodd pam nad oedd proses mewn lle i gosbi aelodau o gyngor gan gyfeirio at ddileu eu gallu i ddod yn gynghorydd yn y dyfodol.

- Cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau at brosesau'r Ombwdsmon a sut mae'n gweithredu, yn ogystal â datgan nad oedd ymddiswyddiad yr aelod yn yr achos penodol hwnnw yn chwarae rhan yn y penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn.

- • Roedd R. Morgan yn deall nad oedd apêl ffurfiol, ond gofynnodd a oedd adborth anffurfiol y gellid ei ddarparu. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau bod yr hawl i gywiro ffeithiau fel eu bod yn wir a ddim yn cynnwys diffyg gwybodaeth yn cael ei ganiatáu, ond mae'r hawl i adborth ar benderfyniad yn rhywbeth nad oes ei angen.

- • Gofynnodd R. Morgan eto a ellid rhoi unrhyw fath o adborth. Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gellir darparu holiadur boddhad cwsmeriaid. Nodwyd hefyd bod gan yr Ombwdsmon ormod o rym a does dim digon o gyfle i bwyllgorau weithredu.

  Fe wnaeth Pennaeth y Gyfraith a Safonau hefyd dynnu sylw at un gŵyn newydd arall yn ymwneud â chynghorydd y ddinas, ond nid oedd y gŵyn yn cael ei hystyried gan yr Ombwdsmon gan nad oedd y cynghorydd yn gweithredu fel aelod o'r cyngor pan ddigwyddodd y gŵyn oherwydd mae gan aelodau hawl i ryddid mynegiant o dan erthygl 10. Roedd y gŵyn yn ymwneud â sylwadau oedd wedi eu rhoi ar dudalen Facebook gymunedol a oedd yn cael ei rheoli gan y cynghorydd dan sylw.

  Nododd Pennaeth y Gyfraith a Safonau 4 cwyn gan gyngor cymuned Langstone. Ni chafodd unrhyw gamau eu cymryd ar y cwynion gan yr Ombwdsmon, ac roedd 2 aelod wedi ymddiswyddo. Nodwyd hefyd bod 2 o'r cwynion yn anghydfod rhwng aelodau a phwysleisiodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod yr Ombwdsmon yn annhebygol o weithredu ar yr anghydfodau hyn. Cafodd honiad arall ei gyfeirio ato, ond roedd hwnnw'n cynnwys bywyd preifat cynghorydd ac nid yw'r Ombwdsmon yn ei adolygu gan nad yw'r effaith ar rôl y cynghorydd fel aelod o'r Cyngor.
  Yn olaf, fe wnaeth dynnu sylw at y ffaith bod tipyn o gwynion gan rai cynghorau cymuned.

  Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd oedd hefyd yn cynnwys arweinwyr grwpiau gwleidyddol.

## 8 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal am 5.30pm ar 15 Tachwedd 2022.